

Mae'r Hysbysiad Cyhoeddus a awgrymir isod yn gais i Roi Trwydded Eiddo neu ei Hamrywio'n Llawn

Rhaid arddangos yr hysbysiad hwn mewn man amlwg yn neu ar y safle y mae'r cais yn berthnasol iddo. Rhaid bod modd gweld yr hysbysiad o'r tu allan i'r eiddo a, lle bod arwynebedd yr eiddo yn fwy na 50 metr sgwâr, rhaid arddangos hysbysiadau pellach bob 50 metr ar hyd terfyn allanol yr eiddo yn gyfagos i'r briffordd.

Mae'n rhaid i'r hysbysiad fod:

- Yn gyfartal â, neu'n fwy na maint A4
- Lliw glas golau
- Wedi ei argraffu neu deipio mewn du maint testun 16 fan lleiaf
- Wedi ei arddangos am 28 diwrnod yn olynol, y diwrnod wedi i'r cais gael ei wneud

***Mae'r rhifolion yn y ddogfen yn nodi fod angen cyflwyno gwybodaeth o fewn yr hysbysiad

- (i) *Rhowch enw'r ymgeisydd (deilydd y Drwydded Eiddo neu Dystysgrif Eiddo Clwb fel arfer)*
- (ii) *Dilëwch p'un bynnag sy'n amherthnasol*
- (iii) *Dilëwch p'un bynnag sy'n amherthnasol*
- (iv) *Rhowch gyfeiriad post yr eiddo*
- (v) *Rhowch enw'r eiddo*
- (vi) *Rhowch ddisgrifiad byr o'r amrywiad (h.y. i ymestyn yr amser cau hyd hanner nos ar ddydd Gwener a dydd Sadwrn / er mwyn cynnwys adloniant heb seinchwyddwr hyd hanner nos ac ati).*

RHYBUDD CYHOEDDUS
DEDDF TRWYDDEDU 2003

I bwy bynnag a fynno wybod:

Rydw i/Rydym ni (i)..... yn rhoi rhybudd drwy hyn fy mod i/ein bod ni wedi gwneud cais i'r Awdurdod Trwyddedu (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy)

i (ii) **roi/amrywio** ein
(iii) **Trwydded Eiddo / Tystysgrif Eiddo Clwb**

yn (iv),.....

a elwir yn (v)

Mae'r cais hwn ar gyfer: (vi)

Gall unrhyw un sy'n dymuno rhoi sylwadau am y cais hwn wneud hynny drwy ysgrifennu at **Bennaeth Gwasanaethau Trwyddedu, Blwch Post 1, Conwy, LL30 9GN** ddim hwyrach na 28 diwrnod ar ôl dyddiad yr hysbysiad hwn (gweler isod). Ni fydd sylwadau sy'n cyrraedd ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried.

Gellir gweld copi o'r cais yn swyddfa'r Awdurdod Trwyddedu yn ystod oriau swyddfa arferol.

Mae'n drosedd rhoi datganiad anwir, naill ai'n fwriadol neu'n fyrbwyll yn gysylltiedig â'r cais hwn, y ddirwy uchaf posibl o gael eich collfarnu yw £5,000.

Llofnod
Ymgeisydd / ar ran yr ymgeisydd

Dyddiad

(Sylwer. Dyddiedig y diwrnod ar ôl mynd â'r cais i'r Awdurdod Trwyddedu)
Rheoliadau 25 a 26 y Ddeddf Trwyddedu 2003 (Trwyddedau Eiddo a Tystysgrifau Eiddo Clwb) Rheoliadau 2005.